



EITEM AR YR AGENDA: 9

PANEL GWEITHREDOL AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

9 Mai 2016

CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2015-16 PROSIECTAU ATEGOL – DIWEDDARIAD YN DILYN Y 12 MIS CYNTAF AR ÔL EI ROI AR WAITH

Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Diben yr Adroddiad

- 1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am effeithiau'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 2 Rhagfyr 2014 ynglŷn â rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau arbenigol i achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr, ac adolygu'r trefniadau ar gyfer galwadau sy'n dod gan larymau tân awtomatig.

Cefndir

- 2 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 27 Hydref 2014, bu'r Aelodau'n ystyried amrywiaeth o opsiynau o ran y gyllideb wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 15 Rhagfyr 2014 pan fyddai gofyn i'r Awdurdod osod ei gyllideb ar gyfer 2015/16.
- 3 Mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 2 Rhagfyr 2014, cyflwynwyd yr opsiynau o ran arbedion posibl i'r Aelodau, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Panel Gweithredol yn benodol amdani. Roedd yr wybodaeth yn ymwneud ag arbedion posibl a'r effeithiau risg o roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol a mynd at lai o alwadau a ddaw gan larymau tân awtomatig.

- 4 Mewn cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub llawn ar 15 Rhagfyr 2014, cadarnhaodd yr Aelodau pa rai o blith opsiynau a ystyriwyd yn y cyfarfod arbennig fyddai'n cael eu gweithredu o 1 Ebrill 2015 ymlaen:
- rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau anstatudol o achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr;
 - peidio ag ymateb fel mater o drefn i alwadau a ddaw gan larymau tân awtomatig.

Gwybodaeth

Achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr

- 5 Penderfynodd yr Aelodau roi'r gorau i ddarparu'r mathau hyn o wasanaethau achub. Roedd y cynllun prosiect i ddileu'r galluoedd hyn yn canolbwyntio ar gyfathrebu'r newidiadau, gyda'r nod o leihau'r effaith ar randdeiliaid, y cyhoedd a'r staff. Yn benodol:
- darparwyd gwybodaeth ysgrifenedig a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda'r sefydliadau eraill sydd hefyd yn ymateb i'r mathau hyn o wasanaethau achub;
 - darparwyd gwybodaeth gyhoeddus drwy ddigwyddiadau arbennig, gwybodaeth ar wefan y Gwasanaeth a negeseuon ar wefannau'r cyfryngau cymdeithasol;
 - darparwyd canllawiau a hyfforddiant ychwanegol i staff yr Ystafell Reoli sy'n ymdrin yn uniongyrchol â cheisiadau am gymorth yn y mathau hyn o ddigwyddiadau.
- 6 Yn y tabl isod, dangosir nifer y galwadau a ddaeth i GTAGC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016:

Math o ddigwyddiad	Galwadau a ddaeth	Adegau pryd yr aethpwyd allan
Achub â rhaffau	1	0
Achub anifeiliaid mawr	16	1

- aethpwyd allan yn dilyn ail alwad at y digwyddiad pan ddywedwyd bod person yn sownd hefyd. Arweiniodd hyn at anfon uned arbenigol achub o ddŵr a pheiriant tân.

Rhoi'r gorau i fynd at alwadau diangen gan larymau tân awtomatig

- 7 Penderfynodd yr Aelodau gyflwyno polisi mwy cadarn ar ymateb i'r mathau hyn o alwadau, gyda'r nod o fynd at lai ohonynt.
- 8 Cwblhawyd cynllun prosiect yn canolbwyntio ar gyfathrebu'r polisi newydd, newid polisiâu a gweithdrefnau mewnol a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu. Yn benodol, cysylltwyd â'r canlynol:
- cwmnïau sy'n gweithredu o safleoedd sydd â larymau tân awtomatig sy'n cael eu monitro o bell ac sydd wedi cynhyrchu galwadau diangen o'r blaen. Cafodd rheolwyr y safleoedd wybod na ddylent ddisgwyl yr un ymateb yn y dyfodol, a chawsant gynnig cyngor a chymorth gan adran Diogelwch Tân Busnesau'r Gwasanaeth ynglŷn â rheoli eu larymau tân awtomatig er mwyn cael cyn lleied o alwadau diangen â phosibl. Cawsant eu sicrhau er hynny y bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymateb i alwadau 999 sy'n dod o'r safleoedd;
 - cwmnïau monitro o bell, i roi gwybod iddynt am y newidiadau;
 - partneriaid fel awdurdodau lleol a gwasanaethau brys eraill.
- 9 Cafodd polisiâu a gweithdrefnau eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau. Cafodd gweithdrefnau newydd eu datblygu ar gyfer yr Ystafell Reoli, a rhoddwyd hyfforddiant i'r staff.
- 10 Mae'r tabl isod yn dangos manylion y galwadau gan larymau tân awtomatig a ddaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016:

Galwadau ddaeth	a	Nifer nad aethpwyd atynt	Gostyngiad yn nifer yr adegau yr anfonwyd peiriannau allan
1303		1219	1316

- 11 Mae'r ystadegau yn y tabl yn dangos gostyngiad o 1316 yn nifer yr ymatebion gan beiriannau tân i alwadau gan larymau tân awtomatig.

12 Gellir rhannu'r arbedion i'r Awdurdod o ganlyniad i beidio â mynd at y 1219 o alwadau diangen gan larymau tân awtomatig yn ddau faes penodol:

- arbedion arian parod, pryd y mae peidio â mynd at larymau tân awtomatig wedi arwain at beidio ag anfon criwiau'r system RDS. Mae hyn wedi arwain at arbed £67,889.50 o gostau uniongyrchol (gan ddefnyddio cyfrifiannell costau tybiannol o £81.50, sef cost cyflogau criw o bedwar diffoddwr tân gyda rheolwr gwylfa am awr drwy arbed yr 833 o symudiadau peiriannau'r system RDS);
- arbedion nad ydynt arian parod pryd nad yw criwiau amser cyflawn wedi cael eu hanfon allan at 519 o larymau tân awtomatig ac felly maent wedi gallu defnyddio eu hamser yn fwy effeithiol ar waith diogelwch cymunedol neu hyfforddiant.

Argymhelliad

13 Bod yr Aelodau'n nodi'r effaith gadarnhaol a gafwyd o ganlyniad i gyflwyno'r polisiau newydd.